

# Cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb

Atodiad 1





## Atodiad 1

Cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb

### AMCAN 1

### PRIF-FFRYDIO CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH DRWY ALLUOGWYR STRATEGOL Y BRIFYSGOL

#### Dyletswydd Cydraddoldeb Prifysgol

#### Sicrhau dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da Galluogwyr Strategol y Cynllun Strategol

CAM GWEITHREDU CYDRADDOLDEB	MESUR LLWYDDIANT	Cyfrifoldeb	
<p><u>Asesu Effaith ar Gydraddoldeb</u></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Sicrhau fod y dogfennau'n addas i'r diben</li> <li>2. Diweddarau'r dogfennau ar y wefan</li> <li>3. Sefydlu prosesau ar gyfer "storio" ac adolygu Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb</li> <li>4. Darparu hyfforddiant priodol</li> <li>5. Parhau i godi ymwybyddiaeth</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Adolygu dogfennau a chofnodi dyddiad adolygu</li> <li>2. Dogfennau a gwybodaeth ar gael ar y wefan</li> <li>3. Dogfennau hanesyddol ar gael a dyddiadau adolygu yn amlwg.</li> <li>4. Monitro faint o staff sy'n cael hyfforddiant i Asesu Effaith ar Gydraddoldeb</li> <li>5. Monitro sut mae'r broses o Asesu Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei defnyddio a'i chofnodi</li> </ol>	<p>Adnoddau Dynol a'r Pennaeth Cydymffurfio</p>	<p>Mae'r ffurflen a'r arweiniad ar gyfer Asesu Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael eu diwygio a'u diweddarau. Fe'u cyhoeddir ar ein gwefan. Darparwyd hyfforddiant ar ffurf sesiynau briffio i uwch reolwyr a bydd hyfforddiant pellach ar gael i'r holl staff.</p> <p>Rhodddwyd cyfrifoldeb penodol i aelod o staff yn yr adran Cynllunio a Llywodraethu i sicrhau bod holl bolisiau'r brifysgol; yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ar gael yn ddwyieithog, yn cydymffurfio â fframwaith polisi'r brifysgol ac i sicrhau bod Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau a'u bod wedi eu cynnwys ar y Gofrestr o Bolisiau.</p>
<p><u>Lledaenu a Chyfathrebu'r ymrwymiad i gydraddoldeb</u></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Penodi a hyfforddi Hyrwyddwyr Cydraddoldeb mewn Colegau ac Adrannau i weithredu fel cysylltiadau allweddol yn y maes ac i rannu problemau ac arferion gorau ar draws y Brifysgol.</li> <li>2. Datblygu llyfryn i dynnu sylw at ystyriaethau a blaenoriaethau cydraddoldeb allweddol ar gyfer</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Rhwydwaith o staff hyfforddedig sy'n gallu cefnogi mentrau a hyrwyddo cydraddoldeb ar lefel Colegau ac Adrannau</li> <li>2. Monitro rheolwyr a chofnodi i ddangos fod y grŵp hwn yn cael gwybodaeth am gydraddoleb.</li> </ol>	<p>Adnoddau Dynol</p> <p>Adnoddau Dynol</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Penodwyd pum Hyrwyddwr Cydraddoldeb a byddant yn cael sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth cyn dechrau yn eu swyddi.</li> <li>2. Paratowyd llyfryn dwyieithog a bydd yn cael ei anfon at yr holl staff ar yr un pryd ag yr anfonir swyddi ac enwau'r Hyrwyddwyr Cydraddoldeb at staff</li> </ol>

staff rhan-amser neu staff ar gcontract tymor byr nad ydynt yn gallu mynychu cwrs sefydlu.			
--	--	--	--

CAM GWEITHREDU CYDRADDOLDEB	MESUR LLWYDDIANT	Cyfrifoldeb	
<p><u>Hyfforddi staff a myfyrwyr</u> Adolygu'r modiwl hyfforddiant cydraddoldeb ar-lein i staff gan weithio ar y cyd ag Aberystwyth.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Parhau â'r Cwrs Cydraddoldeb i Reolwyr drwy ddefnyddio darparwr allanol.</li> <li>Gwasanaethau Myfyrwyr ac Adnoddau Dynol i ymgynghori ynglŷn â: <ul style="list-style-type: none"> <li>Sesiynau briffio parhaus y Tîm Gweithredu ynglŷn â chydraddoldeb.</li> <li>Cyngor y Brifysgol i gael diweddariadau am gydraddoldeb yn unol ag arfer gorau'r sector.</li> </ul> </li> <li>Darparu hyfforddiant priodol wedi'i deilwra ar gyfer staff rheng flaen a myfyrwyr sy'n swyddogion sabothol.</li> <li>Hyrwyddo'r rhaglen Hyfforddiant Cymorth Cyntaf lechyd Meddwl.</li> <li>Ehangu Mynediad - Adeiladu ar yr hyfforddiant ymwybyddiaeth byddardod ac Iaith Arwyddion Prydain mewn partneriaeth â</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>Ymdriniwyd â'r materion hysbys a nodwyd yn y pecyn ac mae'n cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb. Hefyd fod cynnydd yng nghanran o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb electronig gan anelu at 100%.</li> <li>Monitro'r data gan weithio at gael yr holl reolwyr i wneud y cwrs 'Cydraddoldeb i Reolwyr'.</li> <li>- Sicrhau bod y Pwyllgor Gweithredu a'r Cyngor yn cael sesiynau briffio. - Rhaglen o sesiynau briffio ac adroddiadau i'r Cyngor</li> <li>Adborth o'r sesiynau hyfforddi i sicrhau bod yr amcanion wedi'u cyflawni a bod niferoedd uwch o bobl wedi cael eu hyfforddi.</li> <li>Data i ddangos bod niferoedd uwch yn mynychu'r cyrsiau</li> <li>Marchnata'r ddarpariaeth ymhellach gyda chynnydd o ganlyniad yn nifer y sesiynau ymwybyddiaeth byddardod, y modiwlau Cyflwyniad i Iaith Arwyddion Prydain a llwybrau dilyniant.</li> </ol>	<p>1-2 Adnoddau Dynol</p> <p>3 - Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Myfyrwyr</p> <p>4 - Datblygu Staff</p> <p>5 - Gwasanaethau Myfyrwyr 6 - Y Ganolfan Ehangu Mynediad</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>Mae Hyfforddiant Cydraddoldeb ar-lein ar gael i'r holl staff, yn ddwyieithog. Ar hyn o bryd mae 75% o staff wedi cael yr hyfforddiant hwn.</li> <li>Datblygwyd cwrs newydd Cydraddoldeb i Reolwyr a chafodd ei gynnal ddwywaith yn ystod y cyfnod adrodd. Mae sesiynau pellach yn Gymraeg a Saesneg wedi'u trefnu.</li> <li>Rhennir y Cynllun Cydraddoldeb Strategol gyda'r Cyngor bob blwyddyn a'r cynnydd a wneir yn erbyn gwobrau Athena SWAN.</li> <li>Caiff pob hyfforddiant cydraddoldeb ei werthuso ac mae'r ymateb yn gadarnhaol Mae nifer y staff wedi cynyddu i 75% fel y nodwyd o ran nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant cydraddoldeb. Rhoddir hyfforddiant i staff rheng flaen ac i fyfyrwyr sy'n swyddogion sabothol.</li> <li>Yn unol ag argaeledd tiwtoriaid Grwp Llandrillo / Menai, cynhaliwyd cyrsiau Ymwybyddiaeth Cyflwyniad i Fyddar a BSL yn ystod 2016/17, gyda diddordeb yn fwy na'r nifer o leoedd sydd ar gael.</li> </ol>

<p>Llandrillo Menai</p> <p>6. Darparu hyfforddiant Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi i staff yr Uned Caffael (yn cynnwys y modiwl cydraddoldeb/moeseg).</p>	<p>7. Staff yn cwblhau'r modiwl cydraddoldeb ac yn gallu ei roi ar waith yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd</p>	<p>7 - Cyfarwyddwr Caffael</p>	<p>6. &amp; 7. Mae holl staff yr Uned Caffael wedi cael hyfforddiant ac maent yn parhau i gael eu hachredu.</p>
--	---	--------------------------------	---

CAM GWEITHREDU CYDRADDOLDEB	MESUR LLWYDDIANT	Cyfrifoldeb	
<p><u>Monitro</u></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Ehangu argaeledd data monitro, h.y. i'w ddefnyddio i wneud ceisiadau Athena Swann</li> <li>2. Adolygu'r dull o gasglu data i nodi bylchau</li> <li>3. Darparu data ar gyfer Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb</li> <li>4. Sicrhau bod data ar gael i gwrdd â'r anghenion cyfreithiol o ran monitro blynyddol</li> <li>5. Monitro data gadawyr a nodi camau gweithredu/roblemau.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Bod data perthnasol ar gael ar System Gwybodaeth Busnes y brifysgol a bod data ar gael i ddangos bod unrhyw amrywiant a nodir yn lleihau</li> <li>2-4 Tynnir Data Cydraddoldeb ar ddyddiad cyfrifiad rheolaidd er mwyn llywio penderfyniadau ac i gwrdd â rhwymedigaethau cyfreithiol.</li> <li>6. Y gweithgor yn monitro data gadawyr i nodi problemau a mynd i'r afael â nhw.</li> </ol>	<p>1-5 Adnoddau Dynol</p>	<p>Gwnaed gwaith sylweddol i alluogi adrodd trwy system Agresso.</p> <p>Adolygwyd y drefn o gasglu data.</p> <p>Cesglir data cydraddoldeb yn ôl blwyddyn academiaidd i gydymffurfio â gofynion yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Rhoddir cipolwg o'r data ar 1 Awst bob blwyddyn academiaidd.</p> <p>Mae'r data gadawyr yn cael ei fonitro ac mae wedi cael ei adolygu er mwyn cyflwyno gwybodaeth yn well a'i wneud yn fwy perthnasol.</p>
<p><u>Cyhoeddi</u></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cyhoeddi adroddiadau a data monitro ar y wefan Cydraddoldeb yn flynyddol.</li> <li>2. Eu cyflwyno i gyfarfod Cyngor y Brifysgol ym mis Mawrth.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cwrdd â dyddiad cau mis Mawrth.</li> <li>2. Cyflwyno crynodeb o'r cynnydd i gyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth.</li> </ol>	<p>Adnoddau Dynol</p>	<p>Cyhoeddir yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ddiwedd mis Mawrth bob blwyddyn.</p> <p>Caiff pob adroddiad ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Mawrth.</p>
<p><u>Cyflog Cyfartal a materion Contractiol eraill</u></p> <p>Parhau i archwilio cyflogau cyfartal yn flynyddol</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Monitro amrywiant oddi wrth raddfeydd cyflog HERA.</li> <li>2. Monitro llwyddiant gweithredu a</li> </ol>	<p>Adnoddau Dynol gyda mewnbwn gan</p>	<p>Cynhaliwyd ffug archwiliad ar gyfer y cyfnod adrodd.</p> <p>Mae'r drefn ar gyfer dyrchafiad a'r bandiau wedi cael eu</p>

<p>Cyflwyno bandiau athro gyda meini prawf meincnodi ar gyfer dyrchafiadau.</p> <p>Adolygu'r polisiâu presennol o ran pob agwedd ar dâl ychwanegol o ran graddfeydd HERA</p> <p>Adolygiad i ystyried model/ egwyddorion llwyth gwaith i staff academiaidd</p>	<p>dileu amrywiant.</p> <p>3. Wedi ei fonitro yn erbyn y Cynllun Gweithredu Cyflog Cyfartal.</p> <p>4. Nodi perthnasedd WAVE a'r pwyntiau gweithredu</p> <p>5. Nodi set o egwyddorion</p>	<p>Undebau cydnabyddedig y Campws</p>	<p>hadolygu a'u diweddaru.</p> <p>Mae Polisi a Chanllawiau Llwyth Gwaith Academiaidd wedi cael ei ddatblygu a'i gytuno ac erbyn hyn mae gwaith ar y gweill i ddatblygu model llwyth gwaith academiaidd</p>
---	---	---------------------------------------	--

<b>CAM GWEITHREDU CYDRADDOLDEB</b>	<b>MESUR LLWYDDIANT</b>	<b>Cyfrifoldeb</b>	
<p><u>Staff Anabl</u></p> <p>1. Anabledd - adolygu Polisi Rheoli Presenoldeb i sicrhau bod cefnogaeth briodol i staff anabl</p> <p>2. Ystyried cofnodi absenoldeb oherwydd anabledd</p> <p>3. Hyfforddiant i Reolwyr ar reoli absenoldebau</p> <p>4. Hyfforddi rheolwyr i reoli lechyd Meddwl yn y gweithle</p> <p>5. Adolygu pa mor effeithiol yw'r dolenni ar wefannau'r adran Adnoddau Dynol a'r uned lechyd Galwedigaethol am ledaenu gwybodaeth, yn enwedig i staff anabl</p> <p>6. Adolygu'r Gwasanaeth Cwnsela i Staff a sut mae'n cael ei hyrwyddo</p> <p>7. Gweithredu cynadleddau achos i gefnogi staff sy'n dychwelyd i'r</p>	<p>1-7 Cyfrannu at Adolygiad o Bolisi Rheoli Presenoldeb y brifysgol o dan y nod strategol "Cefnogi Lles Staff" a nodwyd yn Strategaeth Adnoddau Dynol 2015-2020. Mae cefnogaeth i staff anabl yn rhan greiddiol o'r Polisi.</p> <p>3-7 Canlyniadau: Cynllun hyfforddi wedi'i nodi; Taflenni cymorth i staff anabl: adolygiad o sut mae'r cynadleddau achos yn gweithio; Adolygwyd y gwasanaeth cwnsela ac mae datblygiadau priodol wedi cael eu gweithredu.</p>	<p>1-7</p> <p>Adnoddau Dynol ac lechyd Galwedigaethol</p>	<p>1. a 2. Mae'r Gwasanaethau lechyd a Diogelwch a'r Adran Adnoddau Dynol yn gweithio gyda'i gilydd i adolygu a diweddaru'r Polisi Rheoli Presenoldeb ac maent eisoes wedi gweithio ar Weithdrefn Cefnogi Gallu newydd.</p> <p>3. Parhaus</p> <p>4. Mae hyfforddiant lechyd Meddwl wedi'i nodi fel blaenoriaeth ac mae'n cael ei gyflwyno i staff academiaidd ac i staff rheng flaen sy'n cefnogi myfyrwyr</p> <p>5. Mae'r Gwasanaethau lechyd a Diogelwch wedi datblygu astudiaethau achos 'Llwybrau at lechyd' ar eu tudalennau gwe sy'n rhoi enghreifftiau o ffyrdd y gellir cefnogi staff.</p> <p><a href="https://www.bangor.ac.uk/hss/wellness/pathways-sick-leave.php.cy">https://www.bangor.ac.uk/hss/wellness/pathways-sick-leave.php.cy</a></p> <p>Gwasanaethau lechyd a Diogelwch - Mae'r ddogfen 'Mynd o gwmpas Bangor' gan yr Adran Anabledd yn dangos pob adeilad yn y brifysgol a'r mynediad iddynt a'r cyfleusterau a'r manau lloches ynddynt</p> <p><a href="https://www.bangor.ac.uk/hss/inflink/disabilityhs.php.cy">https://www.bangor.ac.uk/hss/inflink/disabilityhs.php.cy</a></p>

<p>gwaith a'r rheolwyr llinell i'w rheoli</p> <p>8. Ystyried rhoi gwybodaeth i'r staff o ran beth sy'n "addasiad rhesymol"</p>		<p>Ar yr un dudalen hefyd mae 'Canllawiau Iechyd a Diogelwch ar gyfer myfyrwyr anabl'.</p> <p>Mae Cynlluniau Personol Dianc mewn Argyfwng ar gael ar gais i sicrhau bod pawb yn gadael adeiladau'n ddiogel mewn argyfwng.</p> <p>6. Darperir Cwnsela i Staff a gellir dod o hyd i wybodaeth ar dudalennau gwe yr adran Adnoddau Dynol.</p> <p>7. Mae'r Uned Iechyd Galwedigaethol yn mynychu cynadleddau achos pan fo angen ac mae hynny wedi ei gynnwys yn y Polisi Rheoli Presenoldeb.</p> <p>8. Wedi'i gynnwys yn rhan o'r hyfforddiant Cydraddoldeb i Reolwyr.</p>
--	--	--



**AMCAN 2****ADDYSG A PHROFIAD RHAGOROL I FYFYRWYR****Dyletswydd  
Cydraddoldeb****Sicrhau dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda****Prifysgol  
Strategol****Blaenoriaeth Strategol 1: Addysg a Phrofiad Rhagorol i Fyfyrrwyr  
Blaenoriaeth Strategol 3: Prifysgol Ryngwladol ar gyfer y Rhanbarth**

<b>CAM GWEITHREDU CYDRADDOLDEB</b>	<b>MESUR LLWYDDIANT</b>	<b>Cyfrifoldeb</b>	
<p><u>Strategaeth Profiad Myfyrrwyr</u></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Monitro aflonyddu ar fyfyrrwyr yn unol â'r arfer gorau o fewn y sector</li> <li>2. Gweithredu'r Polisi ar Beidio â Dioddef Aflonyddwch i Fyfyrrwyr</li> <li>3. Datblygu cwricwlwm cynhwysol</li> <li>4. Sicrhau ymagwedd gymunedol gynhwysol i'r Agenda Prevent</li> <li>5. Hyfforddiant parhaus ar bob lefel i staff sy'n wynebu myfyrrwyr ynglŷn â meysydd sy'n ymwneud â chydaddoldeb ac sy'n ymwneud yn benodol â chefnogi myfyrrwyr</li> <li>6. Arbenigwyr allanol yn darparu hyfforddiant i'r Pwyllgor Gweithredu ar bynciau wedi'u dewis gan Undeb y Myfyrrwyr i sicrhau bod diwylliant ein sefydliad yn cael ei lywio gan anghenion ein myfyrrwyr amrywiol.</li> </ol>	<p>Caiff hyn ei amlinellu a'i fonitro gan Grŵp Llywio'r Strategaeth Profiad Myfyrrwyr (grŵp ar y cyd rhwng y brifysgol ac Undeb y Myfyrrwyr).</p> <p><a href="https://www.bangor.ac.uk/about/sees.php.cy">https://www.bangor.ac.uk/about/sees.php.cy</a></p>	<p>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Myfyrrwyr</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Ffurflen ar-lein wedi'i chreu er mwyn cofnodi adroddiadau am aflonyddu ar fyfyrrwyr sy'n mynd at y Pennaeth Cydymffurfio.</li> <li>2. Cafodd y polisi ei gadarnhau ac mae ar waith yn y brifysgol</li> <li>3. Cafodd Strategaeth Addysgu a Dysgu dan Arweiniad Myfyrrwyr ei llunio ac mae'r Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-ganghellor Addysgu a Dysgu yn goruchwyllo ei gweithrediad.</li> <li>4. Roedd hyfforddiant a roddwyd i staff ynglŷn â'r Agenda Prevent yn pwysleisio dull gweithredu cynhwysol.</li> <li>5. Cafodd swydd newydd ei chreu, sef Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrrwyr er mwyn darparu adnodd ar gyfer hyfforddi staff. Nodwyd adnoddau ar-lein allanol i'w treialu.</li> </ol> <p>Rhoddyd hyfforddiant allanol i Bwyllgor Gweithredu'r brifysgol ar ddull strategol o fynd i'r afael â Thrais ar sail Rhywedd a dull strategol o gefnogi lles meddyliol myfyrrwyr.</p>



CAM GWEITHREDU CYDRADDOLDEB	MESUR LLWYDDIANT	Cyfrifoldeb	
<p><u>Strategaeth Iechyd Meddwl Myfyrwyr:</u></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Parhau i ddefnyddio dull gweithredu cyfannol ar draws y brifysgol mewn perthynas â lles meddyliol gyda'r nod o hyrwyddo gwytnwch, adferiad, perchnogaeth a grymuso: Fel rhan o'r Strategaeth Profiad Myfyrwyr, datblygu gweithgareddau sy'n meithrin gwytnwch a hunandibyniaeth ein myfyrwyr, a chreu dull gweithredu drwy'r brifysgol gyfan i hyrwyddo lles meddyliol.</li> <li>3. Parhau i ddarparu rhaglen hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i staff ar draws y brifysgol.</li> <li>4. Parhau i gasglu data perthnasol fel ein bod yn gwybod mwy am afiechyd meddwl ymysg myfyrwyr, am nifer yr achosion a'r canlyniadau.</li> <li>5. Annog myfyrwyr i gymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn hyrwyddo Iechyd Meddwl a'u hannog i roi adborth i ddarparwyr gwasanaeth.</li> <li>6. Alinio gyda thema Rhwydwaith Cynghorwr Iechyd Meddwl Prifysgolion</li> <li>7. ar gyfer 2015-16, sef 'adferiad' a chefnogi a hyrwyddo Diwrnod Iechyd Meddwl Prifysgolion ar 3 Mawrth 2015.</li> </ol>	<p>Caiff hyn ei amlinellu a'i fonitro gan Grŵp Strategaeth Iechyd Meddwl Myfyrwyr a chan Grŵp Llywio'r Strategaeth Profiad Myfyrwyr.</p> <p><a href="http://www.bangor.ac.uk/student-services/counselling/mental_health_strat_egy.php.cy">http://www.bangor.ac.uk/student-services/counselling/mental_health_strat_egy.php.cy</a></p>	<p>Pennaeth Cwnsela Myfyrwyr</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Parhau i ddarparu Cwnsela a gwasanaethau Iechyd meddwl trwy'r Gwasanaeth Cefnogi Myfyrwyr.</li> <li>2. Hyfforddiant Iechyd meddwl wedi'i gyflwyno i staff ar draws y brifysgol a chafwyd sgôr boddhad uchel yn yr adborth. Bu cydweithio rhwng Undeb y Myfyrwyr a staff Cwnsela / Cynghorwyr Iechyd Meddwl ar ddatblygu gweithgareddau priodol ar gyfer cefnogi cyfoedion mewn perthynas â lles meddyliol. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau yn ystod Diwrnod Iechyd Meddwl Prifysgolion, ac mae'r Cynghorwyr Iechyd Meddwl wedi cwrdd ag Undeb y Myfyrwyr i'w cynorthwyo i benderfynu ar y ffordd orau o ddarparu hyfforddiant i fyfyrwyr sy'n cefnogi myfyrwyr eraill</li> <li>3. Mae Grŵp Strategaeth Iechyd Meddwl Myfyrwyr yn cyfarfod 3 gwaith y flwyddyn. Ei nod yw meithrin dull gweithredu cyfannol ar draws y Brifysgol mewn perthynas â lles meddyliol gyda'r nod o hyrwyddo gwytnwch, adferiad, perchnogaeth a grymuso.</li> <li>4. Mae'r Cynghorwyr Iechyd Meddwl wedi parhau i gyflwyno rhaglen Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i staff ar draws y brifysgol, gan flaenoriaethu Undeb y Myfyrwyr a staff allweddol eraill. Maent hefyd wedi cynnal sesiynau galw heibio wythnosol ar gyfer Iechyd meddwl yn Undeb y Myfyrwyr.</li> <li>5. Mae'r Gwasanaeth Cwnsela'n parhau i gasglu data am fynychder, difrifoldeb a chanlyniadau. Gwelodd y Gwasanaeth gyfanswm o 660 o gleientiaid mewn sesiynau cwnsela unigol yn ystod y flwyddyn academaidd. Hefyd, daeth 191 i'r gweithdai Meithrin Gwytnwch, 76 i'r gweithdai iCan a 250 i'r sesiynau galw heibio ar Ymwybyddiaeth Ofalgar. Daeth 31 o fyfyrwyr i grwpiau a dosbarthiadau mwy hirdymor - y cwrs</li> </ol>

			<p>8 wythnos ar Leihau Straen trwy Ymwybyddiaeth Ofalgar a'r dosbarth 8 wythnos newydd ar Sgiliau Rheoli Emosiynau.</p> <p>6. Mae cyfraddau gwelliant clinigol / dibynadwy cleientiaid yn rhoi'r Gwasanaeth Cwnsela ymhlith y 4% uchaf o'r holl Wasanaethau Cwnsela sy'n defnyddio mesur canlyniad CCAPS, ar draws y DU ac UDA.</p> <p>7. Mewn cydweithrediad â Rhaglen Ddoethuriaeth Seicoleg Glinigol Gogledd Cymru, cynhaliwyd dosbarth 8 wythnos ar Sgiliau Rheoli Emosiynau. Roedd hyn yn cynnig ffurf arall a newydd o wneud gwaith seicoaddysgol, gyda'r prif ffocws ar helpu myfyrwyr ag anghenion iechyd meddwl cymhleth i reoli emosiynau trallodus a lleihau tebygolrwydd / amllder ymddygiad hunan-niweidiol a dinistriol</p> <p>8. Mae'r adborth cadarnhaol a gafwyd am nifer o'r mentrau gwaith grŵp yn cadarnhau'r farn bod gwaith grŵp yn briodol, yn fuddiol, ac yn cydfynd yn dda â diwylliant bywyd prifysgol.</p> <p>9. Mae sgorau canlyniadau clinigol adeg derbyn yn dangos yn glir bod lefelau gofid cleientiaid ar draws bob parth yn uwch ym Mhrifysgol Bangor na'r cyfartaleddau cenedlaethol mewn sefydliadau Addysg Uwch.</p> <p>10. Mae'r Gwasanaeth Cwnsela'n parhau i fod yn rhan o Rwydwaith Ymchwil Ymarfer cenedlaethol, sy'n meincodi ac yn rhannu gwybodaeth ystadegol gyda phrifysgolion eraill ledled y Deyrnas Unedig</p> <p>11. Mae project ymchwil Gwytnwch Emosiynol sy'n targedu pob myfyriwr wedi ei lansio ac yn weithredol. Cafodd canfyddiadau rhagarweiniol eu hadrodd i Grŵp Strategaeth Iechyd Meddwl Myfyrwyr ym mis Mai 2017</p> <p>12. Mae swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr a chynrychiolwyr o blith y myfyrwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn aelodau o'r Grŵp Strategaeth Iechyd Meddwl Myfyrwyr. Mentrau ar y cyd gydag Undeb y Myfyrwyr megis</p>
--	--	--	--

			<p>digwyddiadau ar gyfer y diwrnod Iechyd Meddwl Prifysgolion</p> <p>Cafodd pecyn e-ddysgu allanol ar gyfer staff (ar gefnogi myfyrwyr ag anawsterau iechyd meddwl) ei dreialu, ac mae bellach wedi cael ei gymeradwyo gan yr Adran Adnoddau Dynol.</p>
--	--	--	---

CAM GWEITHREDU CYDRADDOLDEB	MESUR LLWYDDIANT	Cyfrifoldeb	
<p>Swyddfa Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Casglu gwybodaeth i ddangos a yw'r ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol yn berthnasol, yn effeithlon ac yn effeithiol.</li> <li>2. Darparu rhaglen o weithgareddau croeso i helpu myfyrwyr rhyngwladol i integreiddio'n rhan o gymuned ehangach y myfyrwyr.</li> <li>3. Darparu cyngor priodol ynglŷn â lles i helpu myfyrwyr rhyngwladol i integreiddio yn y brifysgol a chael profiad cynhwysol.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cynnal arolygon a grwpiau ffocws gan fesur llwyddiant yn ôl nifer y cyfranogwyr a lefelau boddhad. Gweithredu ar argymhellion gan fyfyrwyr.</li> <li>2. Myfyrwyr rhyngwladol wedi integreiddio yn rhan o gymuned ehangach y myfyrwyr gyda lefelau uchel o ymwneud mewn digwyddiadau. Digwyddiadau croeso yn ystod y cyfnod cynefino (Medi ac Ionawr) yn ogystal â rhaglen integreiddio gydol y flwyddyn mewn cydweithrediad ag Undeb y Myfyrwyr. Mesur llwyddiant yn ôl nifer y cyfranogwyr ac adborth myfyrwyr am y ddarpariaeth,</li> <li>3. Cynhyrchu gwybodaeth berthnasol a chyfredol (taflenni gwybodaeth, llawlyfrau a thudalennau gwe) yn rhoi cyngor ynglŷn â lles. Mesur llwyddiant yn ôl y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth (proffil uwch), mynediad cyfartal i'r gwasanaethau a ddarperir gan y Swyddfa Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol ac eraill, yn ogystal ag ymyriadau lles amserol a llwyddiannus.</li> </ol> <p><a href="http://www.bangor.ac.uk/international/support/welfare.php.cy">http://www.bangor.ac.uk/international/support/welfare.php.cy</a></p> <p>Gwell dealltwriaeth o'r gofynion addysgu a dysgu <a href="http://www.prepareforsuccess.org.uk/">http://www.prepareforsuccess.org.uk/</a></p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr Rhyngwladol</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cafodd Arolwg Derbyn a Chyrraedd ei gynnal gyda phob myfyriwr rhyngwladol newydd ym mis Rhagfyr 2016. Arweiniodd hynny at welliannau a datblygiadau yn 2017/18.</li> </ol> <p>Tachwedd 2016 - cafodd Grwpiau Ffocws rhyngwladol eu cynnal gan Wasanaethau Masnachol y brifysgol - i gael adborth am yr arlwyio yn lleoliadau bwyd y brifysgol.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>2. Medi 2016 - cynnal rhaglen gynefino gynharach ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol wedi ei dilyn gan yr Wythnos Groeso. Presenoldeb uchel mewn digwyddiadau a llawer yn hyrwyddo integreiddio (e.e. twmpath dawn, digwyddiadau diwylliannol).</li> </ol> <p>Cynhaliwyd rhaglen o ddigwyddiadau integreiddio gydol y flwyddyn - roedd presenoldeb yn uwch nag erioed, gyda llawer o ddigwyddiadau wedi'u trefnu ar y cyd gydag Undeb y Myfyrwyr a Campws Byw.</p> <p>Cafodd gwefan Nadolig ei chreu - yn rhoi cyngor i fyfyrwyr oedd ym Mangor dros y gwyliu.</p> <p>Cynhyrchwyd Bwletin Staff yn 2016 i hyrwyddo ein gwaith.</p> <p>Sefydlwyd Clwb Diwylliant a Thrafodaeth.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>3. Parhawyd i ddatblygu a diweddarau gwybodaeth (gwybodaeth ar-lein a chopïau caled). Gweler: <a href="https://www.bangor.ac.uk/international/support/welfare.php.cy">https://www.bangor.ac.uk/international/support/welfare.php.cy</a></li> </ol> <p>Cyfle cyfartal yn llywio diweddiadau o'r fath.</p>

CAM GWEITHREDU CYDRADDOLDEB	MESUR LLWYDDIANT	Cyfrifoldeb	
<p><u>Undeb y Myfyrwyr</u></p> <p>1. Anabledd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Lobio ynglŷn â materion yn ymwneud â mynediad i bobl anabl</li> <li>- Ymgyrch i gael allweddî radar ar gyfer toiledau anabl.</li> <li>- Hyrwyddo hyfforddiant cynhwysiant anabledd mewn chwaraeon</li> </ul> <p>2. LHDTG+ 2gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- hyfforddiant ymwybyddiaeth</li> <li>- Ymgyrch i gael toiledau sy'n niwtral o ran rhywedd</li> <li>- Ymgyrch Allan mewn Chwaraeon i ddileu homoffobia mewn chwaraeon</li> </ul> <p>3. Gweithio ar y Llw lechyd Meddwl er mwyn dileu'r stigma yn y maes hwn.</p> <p>4. Hyrwyddo'r Polisi Goddef Dim Aflonyddu yn enwedig mewn perthynas â "diwylliant llanciau".</p> <p>5. Gweithio ar gyflawni profiad dysgu mwy amrywiol a chynhwysol i fyfyrwyr lleiafrifoedd ethnig du.</p>	<p>Adrodd drwy fecanweithiau adrodd Undeb y Myfyrwyr ac i Grŵp Tasg Undeb y Myfyrwyr. Adrodd yn flynyddol trwy broses yr Adroddiad Cydraddoldeb Strategol.</p>	<p>Dan arweiniad Swyddogion Sabothol yn Undeb Myfyrwyr Bangor</p>	<p>1. Anabledd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Lobio ynglŷn â materion yn ymwneud â mynediad i bobl anabl</li> </ul> <p><i>Rydym wedi bod yn gweithio gyda Gwasanaethau Anabledd a chynrychiolydd o Gyngor Undeb Bangor trwy gydol y flwyddyn, er mwyn sicrhau bod materion sy'n ymwneud â mynediad yn cael eu codi yn y Grwpiau Tasg priodol. Rydym hefyd yn cynhyrchu fideo ar gyfer gwefannau'r Undeb a'r Brifysgol, y gellir ei ddefnyddio i hysbysebu'r gwahanol wasanaethau ac i sôn am sut y gall y Brifysgol gefnogi myfyrwyr sy'n wynebu rhwystrau. Er enghraifft, bydd yn tynnu sylw at y ffaith fod modd defnyddio papur o liw gwahanol i argraffu sleidiau darlithoedd.</i></p> <p><i>Rydym hefyd yn cynhyrchu fideo dan arweiniad myfyrwyr i'w roi ar ein gwefan a fydd yn tynnu sylw at rai ffeithiau a hefyd yn 'chwalu chwedlau'.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Ymgyrch i gael allweddî radar ar gyfer toiledau anabl.</li> </ul> <p><i>Nid yw hyn wedi codi eto yn ystod y flwyddyn academaidd, ond byddwn yn ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Tîm Arweinyddiaeth ac yn gofyn am roi hyn ar agenda cyfarfod nesaf y Grŵp Tasg perthnasol.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Hyrwyddo hyfforddiant cynhwysiant anabledd mewn chwaraeon</li> </ul> <p><i>Roedd hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd yn rhan fawr o'r hyfforddiant a roddwyd i'r clybiau a'r cymdeithasau yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Eleni, cynigiwyd yr hyfforddiant i fyfyrwyr hefyd os oedd aelodau'r</i></p>



*clybiau'n teimlo bod angen mwy o ymwybyddiaeth yn y pwyllgorau ac ymhlith yr aelodau. Roedd nifer y cyfranogwyr yn is na'r hyn y byddem wedi ei hoffi, ond gallai hyn fod oherwydd bod pob clwb a chymdeithas wedi anfon o leiaf 2 aelod ar yr hyfforddiant y llynedd, ac oherwydd ein bod wedi argymhell bod y myfyrwyr hyn yn dychwelyd y flwyddyn academaidd ganlynol hefyd.*

**2. LHDTC+ 2gan gynnwys:**

- hyfforddiant ymwybyddiaeth

*Cynhaliwyd yr hyfforddiant hwn am yr eildro eleni ac roedd yn llwyddiannus. Fodd bynnag (fel yr uchod) mae'n debygol, at y dyfodol, y bydd y ddwy sesiwn hyfforddi'n cael eu cynnal bob dwy flynedd yn ein Cynhadledd Arweinyddiaeth Myfyrwyr.*

- Ymgyrch i gael toiledau sy'n niwtral o ran rhywedd

*Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Brifysgol i wneud toiledau Prif Adeilad y Celfyddydau'n niwtral o ran rhywedd ac rydym yn gweithio i gael cytundeb ysgrifenedig gan y Brifysgol yn dweud y bydd pob adeilad newydd yn cynnwys toiledau sy'n niwtral o ran rhywedd. Ar hyn o bryd mae rhestr yn cael ei llunio i nodi lle mae'r holl doiledau sy'n niwtral o ran rhywedd.*

- Ymgyrch Allan mewn Chwaraeon i ddileu homoffobia mewn chwaraeon

*Rydym wedi bod yn gweithio gyda grwpiau myfyrwyr i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth cynhwysiant ac i hyrwyddo'r ymgyrch Allan mewn Chwaraeon. Hefyd, cynhaliodd y gymdeithas LHDTC+ sgyrsiau gyda'n grwpiau myfyrwyr yn ystod ein*

*cynhadledd arweinyddiaeth ar ddechrau'r flwyddyn. Rydym wedi ail-frandio Allan mewn Chwaraeon eleni a byddwn yn ei alw yn Balchder mewn Chwaraeon. Dros y misoedd nesaf byddwn yn symud yr ymgyrch yn ei blaen i gynnwys sgyrsiau a rhagor o sesiynau i godi ymwybyddiaeth.*

3. Gweithio ar y Llw lechyd Meddwl er mwyn dileu'r stigma yn y maes hwn.

*Rydym wedi bod yn gweithio eleni ar nifer o ymgyrchoedd i ddileu'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl. Rydym wedi cynnal ymgyrchoedd ar Ddydd Llun y Felan, gan ganolbwyntio ar y ffaith y gall unrhyw un deimlo'n isel ar unrhyw ddiwrnod a bod dim o'i le ar hynny. Rydym wedi cynnal E-gŵyl - digwyddiad wythnos o hyd i hybu amgylchedd di-straen ac i annog iechyd meddwl da. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Wal Fawr Wen i gyflwyno gwasanaeth iechyd meddwl ar-lein i fyfyrwyr, 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn. Hefyd, rydym hefyd wedi cynnal ymgyrchoedd ar Ddiwrnod Iechyd Meddwl Prifysgolion ac ar Ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd i gael mwy o fyfyrwyr i drafod iechyd meddwl.*

4. Hyrwyddo'r Polisi Goddef Dim Aflonyddu yn enwedig mewn perthynas â "diwylliant llanciau".

*Mae'n fwriad gennym adolygu ein polisiau Man Diogel a Goddef Dim er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn fwy ymwybodol o'r hyn y mae'r polisiau hyn yn ei olygu a beth yw ein safbwynt ni. Unwaith y bydd hynny wedi ei wneud, byddwn yn eu hyrwyddo'n eang, a byddwn yn defnyddio dogfennau ategol i alluogi myfyrwyr i ddeall sut y gellir defnyddio'r polisi a beth mae'n ei olygu.*

Gweithio ar gyflawni profiad dysgu mwy amrywiol a chynhwysol i fyfyrwyr lleiafrifoedd ethnig du.

			<p><i>Rydym wedi dechrau gweithio gyda Chynghorydd Myfyrwyr Duon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn Undeb Bangor ac rydym yn edrych ar sut i godi proffil y rhwystrau mae myfyrwyr duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn eu hwynebu, megis y bwlch cyrhaeddiad ac ehangu ein gwaith ar gwricwlwm cynhwysol i edrych yn agosach ar fyfyrwyr duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Rydym hefyd wedi cynllunio grŵp ffocws o blith myfyrwyr duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i edrych ar gynrychiolaeth ac i weld sut y gall myfyrwyr duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig deimlo'n fwy cynhwysol yn Undeb y Myfyrwyr. Yn fwy cyffredinol o ran y cwricwlwm cynhwysol, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Brifysgol i wella'r broses ail-ddilysu fel bod pwyslais cryfach ar gynnwys myfyrwyr. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn galluogi sgyrsiau am gynhwysiant a chynrychiolaeth gyda grwpiau megis myfyrwyr duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.</i></p>
--	--	--	---

<b>CAM GWEITHREDU CYDRADDOLDEB</b>	<b>MESUR LLWYDDIANT</b>	<b>Cyfrifoldeb</b>	
<p><u>Ehangu Mynediad</u></p> <p>1. Cydweithio gyda'r Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach wrth wneud gwaith gyda rhai sy'n Gadael Gofal.</p> <p>2. Gweithio gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac asiantaethau eraill i gyrraedd Gofalwyr Ifanc, Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc a Gofalwyr sy'n Oedolion.</p> <p>3. Hwyluso gweithgareddau gan yr ysgolion academaidd</p>	<p>1. Mwy o weithgarwch i baratoi'r rhai sy'n gadael gofal ar gyfer Addysg Uwch</p> <p>2. Sefydlu ysgol undydd a/neu weithgaredd penwythnos fel peilot yng ngogledd orllewin Cymru</p> <p>3. Mwy o weithgarwch</p> <p>4. Sefydlu cyfres o weithdai ar gyfer ysgolion a grwpiau cymunedol</p>	<p>Pennaeth Ehangu Mynediad</p>	<p>Y rhai sy'n gadael gofal: parhaodd gwaith partneriaeth o dan arweiniad NMWRWP. Mae Ysgol Breswyl wedi'i chynllunio ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.</p> <p>Gofalwyr: datblygwyd partneriaethau ymhellach gydag asiantaethau Gofalwyr, gyda Phenaeth WA bellach yn aelod o nifer o grwpiau allanol lleol sy'n edrych ar y ddarpariaeth ar gyfer Gofalwyr Ifanc, Gofalwyr Oedolion Ifanc a Gofalwyr hŷn.</p> <p>Mae gwaith y Ganolfan WA o ran hyrwyddo a hwyluso gweithgareddau yn y gwaith ymgysylltu cymunedol cymunedol cydraddoldeb perthnasol</p>

<p>mewn gwaith perthnasol sy'n ymwneud a chydaddoldeb yn y gymuned.</p> <p>4. Hyrwyddo darpariaeth Uned Dyslecsia Miles.</p>			<p>wedi parhau, e.e. gweithio mewn partneriaeth â GISDA ar eu hagenda LGBT.</p>
<p><u>Ymestyn yn Ehangach</u></p> <p>1. Ehangu mynediad i Addysg Uwch i bobl sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac yn ardaloedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a phobl ifanc sydd o gefndir gofal, trwy greu amrywiaeth eang o gyfleoedd astudio a llwybrau dysgu at addysg uwch.</p> <p>2. Alinio gyda gwaith cynllunio ehangu mynediad y bartneriaeth, cynlluniau ffioedd a chynlluniau cydraddoldeb strategol</p> <p>3. Gweithio i ehangu mynediad i Addysg Uwch cyfrwng Cymraeg gan gynnwys ymwneud â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol3</p>	<p>1. Mwy o gyfranogiad cenedlaethol mewn Addysg Uwch gan y grwpiau targed</p> <p>2. Alinio Strategaeth Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru yn glir gyda chynlluniau Prifysgolion Aberystwyth, Bangor a Glyndŵr.</p> <p>3. Cynnydd mewn cyfleoedd cyfrwng Cymraeg a chyfraddau cyfranogi</p>	<p>Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru</p> <p>Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru / Prifysgolion</p> <p>Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru / Prifysgolion</p>	

3 Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio gyda phrifysgolion ledled Cymru i ddatblygu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr

**AMCAN 3**

**GWELLA LLWYDDIANT YMCHWIL**

**Dyletswydd  
Cydraddoldeb**

**Sicrhau dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda**

**Cynllun  
Strategol y**

**Blaenoriaeth Strategol 2: Gwella Llwyddiant Ymchwil**

CAM GWEITHREDU CYDRADDOLDEB	MESUR LLWYDDIANT	Cyfrifoldeb	
<p>Athena Swan<sup>4</sup></p> <p>1. Er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn cwrdd â'r gofynion a nodir yn natganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth RCUK<sup>5</sup> gweithredu Egwyddor y Concordat Ymchwil ac egwyddorion Siarter Athena SWAN</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cyflawni Gwobrau Athena SWAN ar lefel Prifysgol ac ar lefel Ysgolion.</li> <li>2. Ennill Gwobr Rhagoriaeth Ymchwil Adnoddau Dynol</li> <li>3. Gwelliant parhaus o ran ymateb y staff i feysydd perthnasol yn Arolwg Ar-lein Gyrfaoedd Ymchwil (CROS)</li> </ol>	<p>Adnoddau Dynol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan Brifysgol Bangor wobwr Efydd a bydd yn gwneud cais i adnewyddu'r wobwr ym mis Ebrill 2018</li> <li>• Mae gwobr gan 3 ysgol (yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, lechyd ac Ymarfer, yr Ysgol Seicoleg, ac Ysgol yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth) a bydd yr Ysgol Gwyddorau Eigion yn gwneud cais am wobwr Efydd ym mis Ebrill 2018.</li> <li>• Mae 3 ysgol arall yn gweithio tuag at gyflwyno cais am wobwr (Gwyddorau Gofal lechyd, Gwyddorau Meddygol a'r Ysgol Busnes)</li> <li>• Mae swydd-ddisgrifiadau newydd Penaethiaid Ysgolion yn cynnwys y gofyn i fynd ati'n weithredol i hyrwyddo cydraddoldeb ac Athena SWAN yn yr ysgolion.</li> </ul>
<p><u>Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil</u></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Sicrhau bod Cod Ymarfer Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil y Brifysgol yn rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb.</li> <li>2. Sicrhau bod yr holl staff sy'n cymryd rhan yn nhrefn ddewis y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil wedi cwblhau hyfforddiant ym</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Monitro i gadarnhau bod y staff sy'n ymwneud â Chod Ymarfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil ac yn ymwneud â gweithredu'r rhwymedigaethau cydraddoldeb perthnasol wedi cael hyfforddiant priodol.</li> <li>2. Hyfforddiant wedi'i gyflwyno i'r holl staff perthnasol.</li> </ol>	<p>Adnoddau Dynol</p>	<p>Ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diwethaf, cafodd yr holl staff perthnasol hyfforddiant cydraddoldeb a chawsant eu gwneud yn ymwybodol o God Ymarfer Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil Bangor ar gyfer dewis staff. Ystyriwyd amgylchiadau staff unigol a chymerwyd camau priodol cyn cyflwyno.</p> <p><b>Rhagoriaeth mewn Ymchwil AD</b> Enillodd Prifysgol Bangor Wobr Rhagoriaeth</p>



maes cydraddoldeb		mewn Ymchwil AD yn 2016 a bydd yn gwneud cais am y wobr eto yn 2018. Mae'r cais yn cynnwys un adran sy'n ymwneud yn benodol â'r gefnogaeth a roddir i ymchwilwyr yng nghydestun cydraddoldeb ac amrywiaeth.
-------------------	--	---

4 Athena SWAN - Sefydlwyd Siarter Athena SWAN yr Uned Herio Cydraddoldeb yn 2005 i annog ac i gydnabod ymrwymiad i hyrwyddo gyrfaedd merched sy'n gweithio ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, mathemateg a meddygaeth (STEMM) mewn addysg uwch ac ymchwil. Ym Mai 2015 cafodd y siarter ei hymestyn i gydnabod gwaith a wneir yn y celfyddydau, y dyniaethau, gwyddorau cymdeithas, busnes a'r gyfraith (AHSSBL), ac mewn swyddi proffesiynol a chefnogi, ac ar gyfer staff a myfyrwyr trawsrywiol. Mae'r siarter bellach yn cydnabod gwaith a wneir i ymdrin â chydraddoldeb rhywiol yn ehangach, ac nid dim ond y rhwystrau i ddilyniant y mae merched yn eu hwynebu.

5 RCUK - Cynghorau Ymchwil y Deyrnas Unedig